COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD GWENER, 10 MAI 2024 11:30

Presennol

Y Cynghorydd RM Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | S Easterbrook | H Griffiths | M L Hughes |
| D M Hughes | MJ Kearn | J E Pratt | |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | S J Griffiths | D T Harrison | M R John |
| W J Kendall | A Wathan | R Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A R Berrow, C L C Davies a/ac J Llewellyn-Hopkins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Gillian Dawson | Lawyer - Planning |
| Lee Evans | Uwch Swyddog Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Euan Sexton | Senior Planning Officer |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

Datganiadau o Ddiddordeb

Penderfyniad Gwnaed y datganiadau o fuddiant canlynol:

Y Cynghorydd J Pratt - buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 10 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Tref Porthcawl a oedd hefyd yn gwneud y cais. Gadawodd y Cynghorydd Pratt y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Y Cynghorydd R Granville - buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 10 ar yr Agenda gan ei fod yn adnabod un o'r siaradwyr cyhoeddus. Gadawodd y Cynghorydd Pratt y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried. Cymerodd y Cynghorydd S Griffiths y Gadair, fel Is-Gadeirydd, ar gyfer yr eitem hon yn unig.

Y Cynghorydd N Clarke - buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 10 ar yr Agenda - gan ei bod wedi mynegi gwrthwynebiad i'r cais. Gadawodd y Cynghorydd Clarke y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Y Cynghorydd A Wathan - diddordeb personol yn eitem 9 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, nad yw'n cymryd rhan mewn unrhyw fater yn ymwneud â chynllunio, a diddordeb personol yn eitem 10 ar yr Agenda fel aelod o Glwb Bowls Cyn-filwyr.

Y Cynghorydd D Hughes - buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda, gan fod ffrind i'r teulu yn byw ger safle'r cais a'i fod wedi mynegi gwrthwynebiad i'r cynnig. Gadawodd y Cynghorydd Hughes y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Y Cynghorydd H Griffiths - diddordeb personol yn eitem 8 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Cymuned Cwm Garw nad yw'n cymryd rhan mewn unrhyw fater yn ymwneud â chynllunio.

Y Cynghorydd S Easterbrook - ddiddordeb personol yn eitem 9 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr nad yw'n cymryd rhan mewn unrhyw fater yn ymwneud â chynllunio.

Y Cynghorydd R Williams - buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 9 ar yr Agenda, fel claf sy'n mynychu practis deintyddol sydd wedi'i leoli gerllaw safle'r cais a oedd yn gwrthwynebu'r cais HMP a oedd hefyd wedi'i leoli ger safle'r cais.

## 10. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | | |
|---|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: | Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 4/4/2024 fel gwir gofnod manwl gywir. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

## 11. Ymweliadau Safle

| | | |
|---|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: | Cytunwyd ar 26/6/2024 fel dyddiad ar gyfer unrhyw ymweliad â'r safle yn codi o'r cyfarfod, neu a gafodd ei adnabod gan y Cadeirydd cyn y Pwyllgor nesaf oedd wedi'i drefnu. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 | |

## 12. Siaradwyr Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Siaradodd y siaradwyr cyhoeddus canlynol am y ceisiadau cynllunio isod yn y cyfarfod:<br><br>P/23/699/FUL - Y Cynghorydd M Jones, Aelod o'r Ward - cais ysgrifenedig (a ddarllenwyd yn uchel i'r Aelodau) ac A Smith, asiant yr ymgeisydd<br>P/24/22/FUL - A Hopkin, gwrthwynebwyr a Chyngor Tref Porthcawl (ymgeisydd) - cais ysgrifenedig (a ddarllenwyd yn uchel i'r Aelodau)<br>P/23/380/BCB - C Hopkins, gwrthwynebyr a'r ymgeisydd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) - cais ysgrifenedig (a ddarllenwyd yn uchel i'r Aelodau) |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

## 13. Taflen Gwelliant

| | | |
|---|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: | Y byddai'r Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn cymryd i ystyriaeth sylwadau a diwygiadau hwyr y mae angen eu cynnwys. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

## 14. Canllawiau Pwyllgor Datblygiad a Rheoli

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn cynnwys Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

## 15. P/23/699/FUL - Tir i'r gorllewin o Heol Dewi Sant, Bettws, CF32 8TA

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: (1) Gan roi sylw i'r cais uchod, mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i ddarparu cyfraniad ariannol o £11,380 tuag at ddarparu Chwaraeon Awyr Agored:<br><br>Cynnig<br><br>Dymchwel yr adeiladau presennol a chodi dau floc fflatiau yn cynnwys cyfanswm o 20 o breswylfeydd fforddiadwy, gan gynnwys mynediad, parcio, tirlunio a gwaith ategol<br><br>(2) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn cael pŵer dirprwyedig i gyhoeddi hysbysiad penderfyniad yn nodi caniatâd mewn perthynas â'r cynnig hwn, unwaith mae'r Ymgeisydd ymrwymo â'r Cytundeb Adran 106 uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn ei hadroddiad.<br><br>Yn amodol ar Amod 3 o'r adroddiad yn cael ei aileirio fel a ganlyn:<br><br>3. Cyn i'r deunyddiau gael eu defnyddio yn y lleoliad, mae'r fanyleb fanwl neu samplau o'r deunyddiau sydd i'w defnyddio wrth godi arwynebeddau allanol yr adeiladau preswyl gan hynny yn cael eu caniatáu, a bydd gwaith adeiladu sydd wedi'i ddiweddaru sy'n dangos manylion nodweddion ychwanegol hefyd yn cael ei gyflwyno a chytuno arno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r manylion cymeradwy, o fewn yr amserlenni cytunedig. |

| | |
|---|---|
| | Rheswm: Er mwyn sicrhau bod y deunydd arfaethedig ar gyfer adeiladu yn briodol i'w ddefnyddio ar gyfer y datblygiad, er mwyn ehangu a gwarchod yr hyfrytwch gweledol yn yr ardal. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

**16. P/23/753/FUL - 14 Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AX**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Cynnig<br><br>Newid defnydd o swyddfeydd (Dosbarth Defnydd B1) i Dŷ Amlfeddiannaeth (HMO) (Dosbarth Defnydd C4) gyda mwyafswm o 6 pherson. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

**17. P/24/22/FUL - Pafiliwn Bowls Parc Griffin, Parc Griffin oddi ar y Promenâd Dwyreiniol, Porthcawl, CF36 5TS**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Cynnig:<br><br>Newid yn y defnydd a wneir o'r llawr cyntaf o ardal storio i breswylfa swyddfa Cyngor Tref ar gyfer 3 aelod o staff gweinyddol o ddydd Llun i ddydd Gwener<br><br>Yn amodol ar Amod 5 o'r adroddiad yn cael ei aileirio fel a ganlyn: |

| | |
|---|---|
| | 5. Ni fydd y defnydd a ganiatawyd gan hynny yn dechrau hyd nes bod bolard sengl y mae modd ei gloi yn cael ei osod o fewn y giât mynediad i gerbydau oddi ar New Road yn unol â chynllun i gynnwys cynllun rheoli bolardiau, oedd wedi'i gyflwyno gyntaf a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y bolard yn cael ei gadw yn unol gyda'r cynllun cytunedig dros gyfnod defnyddio'r aadeilad.<br><br>Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

**18. P/23/380/BCB - Ysgol Bryn Castell, Heol Llan, Abergarw, CF32 9NZ**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Cynnig:<br><br>Codi Llifoleuadau yn yr Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd allanol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

**19. Apeliadau**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi'r Apeliadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel y dangoswyd hwy yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

**20. Rhestr Hyfforddiant**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau sy’n |

| | |
|---|---|
| | amlinellu'r sesiynau Hyfforddiant sydd ar y gweill ar gyfer Aelodau. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

## 21. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 10 Mai 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 14.00